Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Newid y safonau ar gyfer darparwyr gofal plant cofrestredig

## Ffurflen ymateb




Medi 2025

# Am y ffurflen ymateb yma




Darllenwch y brif ddogfen o'r enw "**Newid y safonau ar gyfer darparwyr gofal plant cofrestredig - Beth ydych chi'n ei feddwl**"



Yna atebwch y cwestiynau yn y ffurflen ymateb yma.




Anfonwch y ffurflen hon yn ôl i ni erbyn **dydd Mercher 10 Rhagfyr 202.**



**Ebost:**

Rydych chi'n gallu llenwi'r ffurflen yma ar eich cyfrifiadur a'i hanfon drwy e-bost i: gofalplantachwarae@llyw.cymru



**Neu ei argraffu a'i bostio i:**

Is-adran Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

## Gwahanol iaith neu fformatau:




Os ydych chi eisiau'r ddogfen yma mewn iaith neu fformat gwahanol, cysylltwch â ni yn:



**Ebost**:

gofalplantachwarae@llyw.cymru



**Ysgrifennwch at:**

Is-adran Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ




Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn Hawdd ei Ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

## Sut rydyn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth




Darllenwch "**Sut rydyn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth**": www.llyw.cymru/safonau-gofynnol-cenedlaethol-ar-gyfer-gofal-plant-wedi-i-reoleiddio-newidiadau-arfaethedig-2025

Mae hyn yn dweud wrthych chi sut y byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel ac yn breifat.

# Cwestiynau



Rydyn ni'n cynnal grwpiau ffocws i siarad â phobl am ein syniadau i wneud newidiadau i reolau gofal plant.

Dywedwch wrthyn ni os ydych chi wedi bod i un o'r sesiynau grŵp ffocws yma.



Ydw – rydw i wedi bod i grŵp ffocws ☐



Na – dydw i ddim wedi bod i grŵp ffocws ☐

# Cynllun newydd

Darllenwch dudalennau 6 i 7 o'r brif ddogfen




**1. Ydych chi'n cytuno bod y cynllun yn yr enghraifft yn glir?**

Cytuno ☐

Anghytuno ☐

Dim un o'r ddau ☐

Ddim yn gwybod ☐

**Esboniwch eich ateb os gwelwch yn dda:**



2. **Ydych chi'n cytuno y dylen ni hefyd ddarparu dolen i'r rheolau ar gyfer pob safon?**

Mae hyn yn meddwl y rheolau yn y Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (2010).

| | |
|---|---|
| Cytuno | ☐ |
| Anghytuno | ☐ |
| Dim un o'r ddau | ☐ |
| Ddim yn gwybod | ☐ |

**Esboniwch eich ateb os gwelwch yn dda:**




3. **Ydych chi'n cytuno y dylen ni hefyd ddarparu dolen i ganllawiau sy'n helpu darparwyr i fynd uwchlaw'r safonau?**

Cytuno ☐

Anghytuno ☐


Dim un o'r ddau ☐

Ddim yn gwybod ☐

**Esboniwch eich ateb os gwelwch yn dda:**

# Gofal o ansawdd uchel

Darllenwch dudalennau 8 i 10 o'r brif ddogfen



**4. Ydych chi'n cytuno y dylen ni ddiweddaru'r bennod o'r enw "Beth rydyn ni'n feddwl wrth Ddarpariaeth o Ansawdd Uchel".**

Nod hyn ydy helpu i gysylltu'r safonau â chynllun ECPLC.

Cytuno ☐

Anghytuno ☐

Dim un o'r ddau ☐

Ddim yn gwybod ☐

**Esboniwch eich ateb os gwelwch yn dda:**

# Cwestiynau eraill am ofal o ansawdd uchel




**Pa newidiadau eraill y gallen ni eu gwneud i'r safonau i gefnogi cynllun ECPLC ymhellach?**



**A oes unrhyw beth arall a ddylai fod yn y bennod o'r enw "Sut mae gofal o ansawdd uchel yn edrych"?**

# Diffiniad o chwarae mynediad agored

Darllenwch dudalennau 11 i 12 o'r brif ddogfen.



**5. Ydych chi'n cytuno â'r diffiniad newydd o chwarae mynediad agored?**

Cytuno ☐

Anghytuno ☐

Dim un o'r ddau ☐

Ddim yn gwybod ☐

**Esboniwch eich ateb os gwelwch yn dda:**

## Cwestiynau eraill am: Diffiniad o chwarae mynediad agored



**Ydych chi'n meddwl y dylen ni ychwanegu enghreifftiau sy'n dangos beth ydy'r gwahanol fathau o ofal dydd?**

**Ydw** ☐

**Nac ydw** ☐

# Safonau Chwarae Mynediad Agored

Darllenwch dudalennau 13 i 17 o'r brif ddogfen



**6. Rydyn ni'n meddwl:**

- **dylai fod o leiaf 1 aelod o staff bob amser gyda hyfforddiant cymorth cyntaf,**
- **a dylai darparwyr wneud asesiadau risg i weld faint o staff sydd angen yr hyfforddiant.**

**Ydych chi'n cytuno â'r syniad yma?**

Cytuno ☐

Anghytuno ☐

Dim un o'r ddau ☐

Ddim yn gwybod ☐

**Esboniwch eich ateb os gwelwch yn dda:**




**7. Ydych chi'n cytuno â'n syniadau ar gyfer staffio, a faint o bobl gymwys sydd yn rhaid eu cael ar gyfer chwarae mynediad agored?**

**Mae hyn yn cynnwys beh rydyn ni wedi ysgrifennu amdano:**

- **Person mewn gofal**
- **Staff eraill**
- **Staff heb unrhyw gymwysterau neu wirfoddolwyr**

| | |
|---|---|
| Cytuno | ☐ |
| Anghytuno | ☐ |
| Dim un o'r ddau | ☐ |
| Ddim yn gwybod | ☐ |

**Esboniwch eich ateb os gwelwch yn dda:**

# Rhoi meddyginiaethau

Darllenwch dudalennau 18 i 22 o'r brif ddogfen.



**8. Ydych chi'n cytuno bod y safon newydd yn glir am feddyginiaeth presgripsiwn a heb bresgripsiwn?**

Cytuno ☐

Anghytuno ☐

Dim un o'r ddau ☐

Ddim yn gwybod ☐

**Esboniwch eich ateb os gwelwch yn dda:**

## Cwestiynau eraill am: Rhoi meddyginiaethau



**Rydyn ni wedi darparu canllawiau pellach i ddarparwyr am paracetamol hylif. Rydych chi'n gallu darllen hwn yma: [www.llyw.cymru/safonau-gofynnol-cenedlaethol-ar-gyfer-gofal-plant-wedi-i-reoleiddio-newidiadau-arfaethedig-2025](www.llyw.cymru/safonau-gofynnol-cenedlaethol-ar-gyfer-gofal-plant-wedi-i-reoleiddio-newidiadau-arfaethedig-2025)**

**Ydych chi'n meddwl bod y canllawiau yn helpu i esbonio beth mae darparwyr yn gallu ei wneud gyda paracetamol hylif?**

# Niferoedd y staff cymwys a heb gymhwyso

Darllenwch dudalennau 23 i 25 o'r brif ddogfen



**9. Ydych chi'n cytuno y dylai'r rheol ar gyfer niferoedd staff fod ar gyfer y lleoliad cyfan, nid pob ystafell?**

Cytuno ☐

Anghytuno ☐

Dim un o'r ddau ☐

Ddim yn gwybod ☐

**Esboniwch eich ateb os gwelwch yn dda:**



**10. Ydych chi'n cytuno gyda ychwanegu'r pwyntiau canlynol at y safon yma:**

- Gellid defnyddio staff ychwanegol i ateb anghenion plant.
- Rhaid bod digon o staff bob amser ar gyfer nifer y plant.
- Dydy staff ychwanegol sy'n cefnogi plant penodol yn unig ddim yn cyfrif fel staff arferol.

Cytuno ☐

Anghytuno ☐

Dim un o'r ddau ☐

Ddim yn gwybod ☐

**Esboniwch eich ateb os gwelwch yn dda:**

# Cynorthwywyr gwarchodwyr plant

Darllenwch dudalennau 26 i 28 o'r brif ddogfen



**11. Ydych chi'n cytuno â'r newidiadau yma:**

- **gallai cynorthwyydd gwarchodwr plant ddechrau gweithio wrth weithio tuag at eu cymhwyster, ond**
- **rhaid iddyn nhw gael eu goruchwylio nes iddyn nhw gael eu cymhwyster, a**
- **rhaid iddyn nhw gael eu cymhwyster o fewn 6 mis.**

Cytuno ☐

Anghytuno ☐

Dim un o'r ddau ☐

Ddim yn gwybod ☐

**Esboniwch eich ateb os gwelwch yn dda:**




**12. Ydych chi'n cytuno y gellid gadael cynorthwyydd gwarchodwr plant cymwys yn gyfrifol am blant am hyd at 2 awr y dydd os:**

- **maen nhw'n bodloni'r safonau, a**
- **dilyn yr holl reolau yn y safonau a'r canllawiau.**

Cytuno ☐

Anghytuno ☐

Dim un o'r ddau ☐

Ddim yn gwybod ☐

**Esboniwch eich ateb os gwelwch yn dda:**

# Cael digon o staff ar gyfer gwarchod plant

Darllenwch dudalennau 29 i 31 o'r brif ddogfen



**13. Ydych chi'n cytuno â faint o blant y mae gwarchodwr plant yn gallu gofalu amdanyn nhw?**

Cytuno ☐

Anghytuno ☐

Dim un o'r ddau ☐

Ddim yn gwybod ☐

**Esboniwch eich ateb os gwelwch yn dda:**




**14. Mae plant sy'n dechrau dosbarth derbyn ym mis Medi yn gallu cael eu cyfrif fel dros 5 oed yn yr haf cyn iddyn nhw ddechrau ysgol.**

**Ydych chi'n cytuno â'r rheol newydd yma?**

Cytuno ☐

Anghytuno ☐

Dim un o'r ddau ☐

Ddim yn gwybod ☐

**Esboniwch eich ateb os gwelwch yn dda:**




**15. Mae plant rhwng 3 a 5 oed sy'n mynd i'r ysgol neu ofal arall am 5 awr neu fwy y dydd yn gallu cael eu cyfrif fel rhai dros 5 oed.**

**Ydych chi'n cytuno â'r rheol newydd yma?**

Cytuno ☐

Anghytuno ☐

Dim un o'r ddau ☐

Ddim yn gwybod ☐

**Esboniwch eich ateb os gwelwch yn dda:**

# Cymraeg




16. Sut ydych chi'n meddwl y gallai'r newidiadau newydd effeithio ar y Gymraeg?

    Er enghraifft, a fydd yn helpu pobl i ddefnyddio'r Gymraeg fwy neu lai?




17. Ydych chi'n meddwl ein bod yn gallu gwneud unrhyw newidiadau i'r safonau a fyddai'n helpu:

    - Pobl i ddefnyddio mwy ar y Gymraeg.
    - Cefnogi'r Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.
    - Lleihau unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg.

# Cwestiynau eraill



**18. Ydych chi'n meddwl y gallai'r newidiadau hyn effeithio ar blant, teuluoedd, neu bobl sy'n byw mewn tlodi?**



**19. Ydych chi'n meddwl y gallai'r newidiadau effeithio ar wahanol grwpiau o bobl sydd â nodweddion gwarchodedig (fel oedran, anabledd, hil, rhyw)?**




**20. A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud?**




Efallai y byddwn yn cyhoeddi eich atebion ar-lein neu mewn adroddiadt.



Os nad ydych eisiau i ni ddefnyddio eich atebion, ticiwch y blwch. ☐




Diolch am ateb y cwestiynau yma.